# Cynorthwyo unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol i ddarparu tystiolaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol i ddarparu tystiolaeth. Mae'n cynnwys casglu tystiolaeth a darparu gwybodaeth i unigolion ynghylch archwiliadau meddygol fforensig a chymryd samplau cyn proses y llys. Mae'n cynnwys cael cydsyniad gan yr unigolyn i ddarparu tystiolaeth. Hefyd, mae'n cynnwys trefnu'r cyfarpar ar gyfer casglu tystiolaeth a chymryd camau i atal tystiolaeth rhag cael ei halogi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. defnyddio asesiad risg ac anghenion priodol i gynorthwyo unigolion i ddarparu tystiolaeth, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
2. casglu tystiolaeth mewn ffyrdd nad yw'n cymryd blaenoriaeth dros les unigolion
3. darparu gwybodaeth gywir i unigolion am:
• sut i ddiogelu tystiolaeth fforensig
• pa samplau y gellir eu cymryd, yn unol ag anghenion unigolion
• proses yr heddlu ar gyfer cyflawni'r dystiolaeth orau
4. trafod a chytuno ag unigolion ar eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a ddarparwyd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. cynnal cyfrinachedd unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
6. darparu gwybodaeth am y broses archwilio feddygol fforensig i unigolion mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion
7. esbonio wrth unigolion y broses o gymryd a storio samplau
8. asesu gallu unigolion i roi cydsyniad gwybodus i gasglu tystiolaeth yn gynnar
9. cael cydsyniad gan unigolion, lle bo hynny'n briodol, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
10. gwirio bod y cyfarpar a'r cyflenwadau priodol ar gael a'u bod yn gweithredu'n gywir er mwyn hwyluso'r broses gasglu tystiolaeth
11. cymryd camau i atal y dystiolaeth rhag cael ei halogi, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
12. pennu a oes angen cynnal yr archwiliad fforensig a threfnu hyn, lle bo hynny'n briodol
13. darparu cymorth yn ystod yr archwiliad fforensig, lle bo hynny'n briodol
14. casglu a selio'r samplau fforensig, a'u labelu'n glir, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
15. storio samplau fforensig yn ôl yr amodau gofynnol, canllawiau cenedlaethol a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
16. cadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
17. diweddaru gwybodaeth gyda chyfathrebiadau parhaus a gwybodaeth newydd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. polisïau a gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer cael cydsyniad
4. y canlyniadau a’r opsiynau sydd ar gael pan fydd unigolyn yn gwrthod cydsynio
5. camau’r broses cyfiawnder troseddol er mwyn caniatáu i unigolion wneud dewisiadau gwybodus a rheoli eu disgwyliadau
6. y gwahanol resymau pam y gall fod angen cofnodion ar y cyd â’r broses cyfiawnder troseddol
7. materion diogelu data sy’n ymwneud â’r broses casglu tystiolaeth
8. sut i gynnal cofnodion clir, cywir a ffeithiol
9. y wybodaeth y gellir ei darparu i unigolion
10. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn y gymuned
11. yr effaith ar bawb sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys unigolion, plant a dibynyddion
12. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o’ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun, a’u heffaith ar eich gallu i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol
13. sut i fod yn sensitif ac yn hyblyg eich dull, gan ddefnyddio amrywiol dechnegau sy’n briodol i ymddygiad ac agwedd yr unigolyn
14. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
15. y dulliau cywir ar gyfer defnyddio’r pecynnau cyfarpar y mae eich sefydliad yn eu defnyddio
16. y canllawiau presennol sydd ar gael ar gasglu tystiolaeth fforensig a sut i’w cymhwyso
17. ffyrdd o ymateb i anghenion iechyd corfforol ac iechyd rhywiol posibl
18. y dulliau a’r cyfarpar cywir y mae eu hangen i gasglu a diogelu tystiolaeth fforensig
19. y ffyrdd cywir o ddelio â chasglu, storio a diogelu tystiolaeth fforensig ddienw
20. gofynion eich rôl gymorth yn ystod archwiliad meddygol fforensig a, lle y cytunir

ar hynny, y cyfweliad fideo

21. pryd mae’n briodol cymryd samplau fforensig a’r cyfyngiadau ar derfynau amser storio
22. anghenion meddygol fforensig yr unigolyn

## Geirfa